

# **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Canolfan Iechyd Cwmafan,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae  
Abertawe

Dyddiad arolygu: 10 Gorffennaf  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 11 Hydref  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	26
4.	Beth nesaf? .....	30
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	31
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	32
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Iechyd Cwmafan, Bwrdd Prifysgol Bae Abertawe, Penllyn, Castell-nedd Port Talbot, SA12 9PY ar 10 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad, adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Iechyd Cwmafan yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom fod y staff yn y practis yn hapus yn eu gwaith, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y bwrdd iechyd. Yn ogystal, gwelsom ymrwymiad i ymgysylltu â chleifion er mwyn rhoi profiad cadarnhaol iddynt, ac roedd sylwadau cleifion ar y staff a'r gwasanaeth yn gadarnhaol yn gyffredinol.

Nid oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes, a oedd yn cynnwys cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol i'r staff. Yn ogystal, mae'r practis wedi'i leoli yn yr un adeilad â phractis arall nad yw'r bwrdd iechyd yn ei reoli. Roeddem o'r farn y gallai hyn beri dryswch i gleifion sy'n cyrraedd y safle, gan nad oedd ffin glir rhwng y ddau bractis. Felly, nodwyd gennym fod angen gwella gwybodaeth i gleifion yn hyn o beth.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Trefniadau ar gyfer rheoli atgyfeiriadau cleifion
- Datblygu grŵp cyfranogiad cleifion
- Adolygu clinigol gan gymheiriaid a chymorth
- Safon y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion clinigol
- Cymorth y bwrdd iechyd i'r staff yn y practis.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ei gwneud yn haws i gleifion weld pa ran o'r feddygfa sy'n gysylltiedig â ph'un o'r ddau bractis gwahanol.
- Cwblhau gwaith adnewyddu i'r tu allan i'r adeilad
- Sefydlu clinigau rheoli clefydau cronig penodol

- Sicrhau bod y wybodaeth am hyfforddiant pob aelod o'r staff yn gyfredol ac yn hawdd mynd ati.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Iechyd Cwmafan yn bractis ar ddau safle gyda meddygfa gangen yng Nghymer, ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau i oddeutu 6,000 o gleifion. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi tîm o staff yn y practis, sy'n cynnwys pum meddyg teulu cyflogedig, tair nyrs practis, fferyllydd, dau gynorthwyydd gofal iechyd, rheolwr practis, dirprwy reolwr practis a staff y dderbynfa. Mae uwch-staff clinigol a rheoli yn y bwrdd iechyd yn rheoli tîm y practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau meddygol cyffredinol
- Rheoli clwyfau
- Rheoli clefydau cronig
- Profion ceg y groth
- Brechiadau teithio
- Chwistrellu clustiau
- Imiwneiddio babanod
- Clinig babanod



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u bod yn cael eu trin â pharch. Gwelsom fod trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli atgyfeiriadau, ond roedd pryderon gan gleifion ynghylch system apwyntiadau Telephone First<sup>1</sup>.

Roedd yn amlwg bod y tîm o staff yn canolbwyntio ar yr angen i ystyried barn cleifion. Mae grŵp cyfranogiad cleifion wedi cael ei ffurfio ac mae'r grŵp wedi llunio arolwg i gasglu adborth cleifion ar faterion sy'n cynnwys system Telephone First.

Mae'r practis wedi'i leoli yn yr un adeilad â phractis arall ac roeddem o'r farn y gallai hyn beri dryswch i gleifion sy'n cyrraedd y safle, gan nad oedd ffin glir rhwng y ddau bractis. Nodwyd gennym fod angen gwella gwybodaeth i gleifion yn hyn o beth.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

---

<sup>1</sup> Mae Telephone First yn wasanaeth lle mae cleifion yn siarad â'r meddyg dros y ffôn cyn y gwneir penderfyniad ar eu gofal a ph'un a oes angen iddynt ddod i'r practis ai peidio.

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddyg teulu. Cafwyd ymatebion cadarnhaol yn gyffredinol; dywedodd bron thri chwarter y cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n 'dda. Fodd bynnag, amlygodd cleifion bryderon am amseroedd aros am apwyntiadau a pheidio â gweld yr un meddyg. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Mae system Telephone First yn gweithio'n dda iawn"*

*"Ar fy mhum ymweliad diwethaf, rwyf wedi gweld meddyg gwahanol ar bob achlysur. Rhaid i fi esbonio fy nghyflwr bob tro – er bod gan y practis system gyfrifiadurol"*

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau yn awgrymu gwelliannau yn cynnwys:

*"Gwella'r system trefnu apwyntiadau. Parhad gofal drwy beidio â chael cynifer o feddygon gwahanol"*

*"Meddygon preswyl"*

*"Meddygon rheolaidd. Cadw apwyntiadau ar amser"*

Dywedodd bron pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus â'u gofal. Mynegodd rhai cleifion bryderon am y system apwyntiadau sydd ar waith, Telephone First, oherwydd nad oedd cleifion wedi cael galwad yn ôl, neu eu bod wedi colli'r alwad ac wedi gofod ffonio'r feddygfa i ddechrau'r broses eto. Felly, mae risg y gall fod oedi hir cyn cael gafael ar feddyg teulu yn y lle cyntaf i gael cyngor neu asesiad.

## **Cadw'n iach**

Gwelsom fod amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd a gwybodaeth am grwpiau cymorth ar gael yn nerbynfa'r practis. Roedd hyn yn cynnwys dau hysbysfwrdd penodol i gleifion.

Roedd un o'r hysbysfyrddau'n cael ei ddefnyddio i hybu thema wahanol bob mis, er enghraifft brechiadau ar gyfer y fflw ac at ddibenion teithio. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd thema'r hysbysfwrdd yn hyrwyddo profion ceg y groth, ac yn hysbysebu sgrinio am ddim gan y GIG. Roedd yr ail hysbysfwrdd yn hyrwyddo amrywiaeth o fentrau hybu iechyd a oedd yn cynnwys taflenni a phosteri yn ymwneud â chanser y prostad, atal pobl rhag cwmpo, rhoi'r gorau i smygu a sgrinio coluddion.

Roedd ardal ddynodedig yn y dderbynfa a oedd yn cynnwys gwybodaeth i ofalwyr, er enghraifft, posteri'n hysbysebu Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot a thafleuni ar gymorth i ofalwyr.

## **Gofal ag urddas**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis. Ni chodwyd unrhyw bryderon pan wnaethom siarad â chleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, a chafwyd sylwadau cadarnhaol am y ffordd y mae'r meddygon yn cymryd eu hamser wrth ymdrin â chleifion â chyflyrau iechyd meddwl. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar.

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros yn cael eu rhannu â'r practis cyfagos, Cwmavon Health Centre (Dr Penney), a oedd wedi'i leoli yn yr un adeilad. Nid oedd unrhyw wahaniad clir rhwng y ddwy dderbynfa wahanol. Mae hyn yn golygu bod problem bosibl o ran preifatrwydd pan fydd cleifion yn aros i siarad â staff y dderbynfa mewn amgylchedd prysur a swnllyd. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai cleifion yn aros i gael mynediad i'r dderbynfa anghywir.

Gwelsom fod y practis wedi ystyried cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion, gan fod hysbysiad wedi cael ei osod yn y dderbynfa yn datgan "please respect the privacy of the person in front of you". Yn ogystal, roedd tâp wedi cael ei osod ar y llawr, er mwyn creu ffin rhwng y ddwy feddygfa, yn ogystal â llinell lle dylai cleifion aros tan iddynt gael eu galw i'r dderbynfa. Nid oedd yn amlwg i'r tîm arolygu bod y tâp ar y llawr at y diben hwn, felly ni fydd yn glir i rai cleifion o bosibl.

Nid oedd unrhyw rwystrau gwydr na rhywbeth tebyg yn y dderbynfa er mwyn lleihau sŵn sgysiau rhwng y staff. O ganlyniad, gallem ni, ynghyd â'r cleifion, glywed staff y dderbynfa yn siarad ar y ffôn. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw'n cydnabod yr heriau yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i dîm ystadau'r bwrdd iechyd ddod i'r practis yn ddiweddarach yn yr wythnos i ddechrau ar y gwaith o ailddatblygu blaen y dderbynfa er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Amlygwyd i ni hefyd fod y practis yn datblygu defnydd o hwb mewn swyddfa gefn i ateb pob galwad o ran brysbennu cleifion. Bydd hyn yn symud galwadau ffôn o'r dderbynfa ac, wrth wneud hynny, wella lefelau preifatrwydd cleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau pan oedd cleifion yn cael eu hapwyntiadau, gan eu galluogi i gael sgysiau preifat. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y caiff cleifion eu tywys i un o'r ystafelloedd

ymgyngori nad yw'n cael eu defnyddio, os byddant yn gofyn am sgwrs gyfrinachol.

Gwelsom arwydd yn y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion y gallant fynd â hebryngwr i mewn i'r apwyntiad. Roedd yr arwydd yn helpu i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r gwasanaeth sydd ei angen er mwyn diogelu cleifion a staff gofal iechyd pan gynhelir archwiliadau personol. Nid oedd angen hebryngwr yn glinigol yn unrhyw un o nodiadau'r cleifion a adolygwyd gennym ond rhoddwyd sicrwydd i ni gan y prif glinigwr fod hebryngwyr yn cael eu cynnig bob amser. Rhoddwyd gwybod i ni fod dau weithiwr cymorth gofal iechyd ac un derbynnydd wedi cael hyfforddiant ar fod yn hebryngwr.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ystyried ffyrdd o sicrhau y caiff y ffin rhwng y practisau a diben y llinell breifatrwydd eu hegluro i gleifion
- Sicrhau bod mwy o staff yn cael hyfforddiant ar fod yn hebryngwr, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ar bob adeg
- Sicrhau bod proses gadarn ar waith i'r staff gofnodi bod hebryngwr yn bresennol yn ystod yr archwiliad.

### Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod llyfrynnau gwybodaeth am y practis ar gael ar ddesg y dderbynfa, a oedd hefyd yn cynnwys copi yn Gymraeg. Roedd y llyfryn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y practis a oedd yn cynnwys amseroedd agor, gwybodaeth am y tîm meddygol, y broses ar gyfer trefnu apwyntiad a manylion cyswllt y tu allan i oriau. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Prin iawn oedd y wybodaeth a oedd ar gael ar wefan y practis. Rhoddwyd gwybod i ni fod y practis yn ymwybodol o'r angen i ddiweddarau ei wefan ac y trefnir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd standin dros dro yn hysbysbu system Telephone First ynghyd â thafleini ategol ar gael i'r cleifion. Mae'r tafleini'n disgrifio'r broses yn glir ac yn amlygu y gwneir addasiadau rhesymol lle mae gan gleifion anghenion penodol sy'n eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd arwyddion amrywiol yn cael eu harddangos i gyfeirio cleifion o gwmpas y feddygfa, ond gwelsom ei bod yn anodd dod o hyd i'r manau cywir. Fel yr amlygwyd yn gynharach, y rheswm dros hyn yw bod y ddau bractis gwahanol yn yr un lleoliad, ac nid oedd unrhyw ffin glir rhyngddynt. Roedd hysbysiadau ar ddrws y fynedfa yn dangos gwybodaeth am amseroedd agor y ddau bractis, ond nid oedd yn amlwg ar unwaith pa bractis roeddent yn ei gynrychioli. Gwelsom hefyd gleifion a oedd yn ansicr pa ystafell ymgynghori y dylent fynd iddi, yn ogystal â pha bractis roedd y ddau grŵp o staff yn y fynedfa yn gweithio iddo.

Gwelsom nad oedd peth o'r wybodaeth ar y tu allan i'r adeilad wedi bod yn gyfredol ers amser hir. Roedd hyn yn cynnwys arwyddion ar gyfer Awdurdod Iechyd Gorllewin Morgannwg, nad yw'n bodoli mwyach, a phlac ar gyfer Dr Huw Browning, a oedd yn rheoli'r practis cyn i'r bwrdd iechyd gymryd yr awenau.

Gwelsom fod y clinigwyr yn defnyddio'r taflenni gwybodaeth i gleifion gan Vision<sup>2</sup> a'r taflenni gwybodaeth iechyd ar-lein a oedd yn cael eu cynhyrchu gan y system<sup>3</sup> er mwyn i'r cleifion allu deall eu hiechyd a'u hafiechyd eu hunain.

Roedd gan y practis bolisi cydsynio ar waith a oedd yn gynhwysfawr gydag adrannau penodol ar oedolion, pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a phlant.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Diweddarau gwefan y practis er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau presennol a ddarperir
- Ystyried sut i ddiffinio pob practis yn glir yng Nghanolfan Iechyd Cwmafan
- Sicrhau y caiff cleifion eu cyfeirio'n briodol at eu hystafelloedd

---

<sup>2</sup> <https://www.visionhealth.co.uk/>

<sup>3</sup> <https://patient.info/>

ymgynggori ac at ba dderbynfa y dylent fynd

- Diweddarau'r arwyddion allanol ar yr adeilad i gynnwys gwybodaeth gyfredol

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith, a bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar y diwrnod wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda, er bod problemau o hyd o ran trefnu apwyntiadau.

Dywedwyd wrthym fod un o staff y dderbynfa yn siarad Cymraeg yn rhugl, a dywedodd y staff wrthym am wasanaeth cyfieithu dros y ffôn a oedd ar gael i gefnogi unrhyw un nad Saesneg yw ei famiaith. Rhoddwyd gwybod i ni fod dolen sain ar gael yn y practis i helpu cleifion â chymhorthion clyw. Ni allem weld arwydd yn hysbysebu'r gwasanaeth cyfieithu na'r ddolen sain sy'n golygu na fyddai cleifion bob amser yn ymwybodol bod y cyfleusterau hyn ar gael.

Gwnaethom edrych ar sampl o chwe chrynodeb rhyddhau cleifion gan yr ysbyty. Roedd y cofnodion o ansawdd da ac roeddent wedi cael eu hadolygu'n amserol. Roedd y wybodaeth wedi cael ei chofnodi yng nghofnodion y cleifion gyda'r nod o lywio gofal a thriniaeth yn y dyfodol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hysbysiadau'n cael eu harddangos yn glir, gan amlygu bod dolen sain a gwasanaeth cyfieithu ar gael.

### Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon ag oriau agor y practis. Fodd bynnag, dywedodd ychydig yn llai na hanner ohonynt nad oedd bob amser yn hawdd, neu nad oedd yn hawdd o gwbl, drefnu apwyntiad pan oedd ei angen, a dywedodd ychydig yn llai na chwarter ohonynt nad oeddent byth yn cael gweld y meddyg o'u dewis.

Pan ofynnwyd iddynt yn yr holiadur ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion fod eu profiad wedi bod

yn wael neu'n wael iawn. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad wrthym eu bod wedi cael eu gweld ar yr un diwrnod ag y gwnaethant ofyn am apwyntiad neu ar y diwrnod canlynol.

Rhodddwyd gwybod i ni fod claf yn cael cynnig ymgynghoriadau â gweithiwr gofal iechyd priodol pan fydd yn ffonio'r practis. Roedd ein hadolygiad o'r wybodaeth a gofnodwyd dros y ffôn yn dangos tystiolaeth dda o'r tîm clinigol yn rhannu'r llwyth baich yn briodol, gan gynnwys y fferylllydd a'r nyrs.

Rhodddwyd gwybod i ni fod staff y dderbynfa yn dweud wrth gleifion ar lafar ar hyn o bryd am amseroedd aros ac unrhyw resymau dros oedi. Gwelsom fod y practis wedi gosod uned arddangos weledol newydd yn ddiweddar uwchlaw'r dderbynfa sy'n gysylltiedig â system galw cleifion. Dywedwyd wrthym, pan fydd yr uned wedi ei rhoi ar waith, y bydd yn galluogi'r practis i roi diweddariadau digidol ar amseroedd aros ac achosion o oedi.

Roedd trefniadau llywodraethu da ar waith ar gyfer rheoli atgyfeiriadau yn y practis. Dywedwyd wrthym y caiff cleifion eu hatgyfeirio naill ai at Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nod y practis yw cwblhau atgyfeiriadau ar yr un diwrnod gwaith, gan flaenoriaethu atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag achosion posibl o ganser. Mae pob meddyg teulu'n cynnal sesiwn weinyddu wythnosol er mwyn clirio pob atgyfeiriad na chafodd ei gwblhau ar yr un diwrnod, ac mae dirprwy reolwr y practis yn monitro atgyfeiriadau i sicrhau y cânt eu derbyn yn yr ysbytai dynodedig. Mae'r practis yn trafod cyfraddau atgyfeirio ac atgyfeiriadau diddorol neu heriol yn y cyfarfodydd clinigol wythnosol.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd y practis ar un llawr ac roedd modd ei gyrraedd drwy ramp ger y fynedfa. Fodd bynnag, gall mynd i mewn i'r practis drwy'r drysau dwbl allanol a mewnlod fod yn anodd i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl â chadeiriau gwthio, gan nad oeddent yn agor yn awtomatig. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y tywydd yn gynnes ac roedd y drysau cyntaf yn cael eu dal ar agor gan wella mynediad.

Rhodddwyd gwybod i ni am y broses o adnabod cleifion ag anghenion ychwanegol, drwy system faneri ar gofnodion electronig cleifion. Byddai hyn yn rhybuddio staff y practis i wneud trefniadau addas lle bo angen, er enghraifft, wrth drefnu apwyntiadau i'r rheini a oedd yn dod yng nghwmni gofalwyr. Hefyd, disgrifiodd y staff sefyllfaoedd lle bydd cleifion iechyd meddwl yn dod i'r

feddygfa a chânt eu tywys allan o'r brif dderbynfa, er mwyn siarad â nhw mewn ystafell dawel os oes angen. Dywedwyd wrthym fod y practis yn hapus i wahodd gweithwyr cymorth, gofawyr a pherthnasau i ymgynghoriadau ar y cyd os ceir y cydsyniad angenrheidiol.

## Hawliau pobl

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod staff y dderbynfa yn trin y cleifion â pharch. Fel yr amlygwyd yn gynharach, roedd ramp ar gael i wella mynediad i'r feddygfa, ond dim ond un lle parcio dynodedig i bobl anabl oedd ar gael yn y maes parcio. Roedd y toiledau i gleifion yn y dderbynfa wedi eu labelu'n glir ac, er nad oedd toiled dynodedig i bobl anabl, roedd un o'r ciwbiclau ym mhob toiled wedi cael ei addasu i'w ddefnyddio. Ni welsom a oedd asesiad allanol wedi cael ei gwblhau i asesu mynediad i gleifion ag anableddau.

Roedd hysbysiad yn cael ei arddangos ger desg y dderbynfa i ddangos sut y mae'r practis yn defnyddio data cleifion, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Hefyd, roedd y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn datgan bod gan bob aelod o'r staff gymalau yn ei gytundeb yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb am gyfrinachedd cleifion. Roedd y llyfryn hefyd yn tynnu sylw at hawliau cleifion i weld eu cofnodion iechyd personol, a'r broses roedd yn rhaid iddynt ei dilyn er mwyn gofyn am y wybodaeth hon. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo eu bod yn deall diben casglu gwybodaeth am gleifion a phwysigrwydd cyfrinachedd wrth ymdrin â data sensitif.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gomisiynu asesiad o fynediad i bobl anabl er mwyn dangos effaith yr adeilad ar gleifion ag anableddau.

## Gwranddo ar adborth a dysgu ohono

Dywedodd uwch-staff o'r bwrdd iechyd fod y practis wedi bod ar daith heriol ers i'r bwrdd gymryd yr awenau ym mis Ebrill 2017. Roedd hyn yn cynnwys llwyddo i reoli gwrthwynebiad cleifion i'r broses o uno'r practis â phractis cangen Cymer, drwy nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â chleifion.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i gasglu barn ac adborth ar y newidiadau, lle nodwyd prif themâu, gyda phryderon dros fynediad at wasanaethau a diffyg eglurder o ran staff y practis. Mae datblygu grŵp cyfranogiad cleifion, fel yr amlygwyd yn gynharach, wedi bod yn un o ganlyniadau'r gwaith hwn. Mae'r



grŵp yn cynnwys cleifion gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â staff y practis a meddygon teulu i drafod materion sy'n ymwneud â chleifion. Roedd yr uwch-staff yn dweud bod newid sylweddol wedi bod o'r gwrthdaro cychwynol â chleifion i weithio'n llwyddiannus â nhw bellach drwy'r grŵp cyfranogiad cleifion, sydd wedi creu arolwg i gleifion ers hynny. Bydd yr arolwg yn casglu adborth ar faterion allweddol sy'n cynnwys deall system Telephone First, pa mor hir yw amser derbyniol i aros am alwad yn ôl a pha rwystrau sy'n atal cleifion rhag defnyddio gwasanaethau.

Gwelsom fod blwch awgrymiadau cleifion ar gael yng nghornel ystafell y dderbynfa er mwyn casglu adborth cleifion, ond nid oedd papur na phinnau ysgrifennu ar gael i gleifion eu defnyddio. Dywedodd y staff wrthym nad oedd llawer o ymatebion fel arfer. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis sicrhau bod deunydd ysgrifennu ar gael, er mwyn galluogi cleifion i roi adborth drwy'r blwch awgrymiadau.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith, a oedd yn cydymffurfio â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.<sup>4</sup> Roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn y dderbynfa, ynghyd â thafleuni Gweithio i Wella. Gwelsom fod cofnodlyfr cwynion cynhwysfawr yn cael ei gynnal gan y practis a oedd yn cynnwys y dyddiad, y math o gŵyn, adborth a'r dyddiad y cafodd ei ddatrys.

---

<sup>4</sup> Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd trefniadau addas ar waith i ragnodi meddyginiaethau'n ddiogel a dysgu o unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion.

Roedd y tu mewn i adeilad y practis yn lân ac yn daclus ond roedd golwg ddiflas arno, ac nid oedd yn darparu amgylchedd delfrydol i'r staff na'r cleifion. Roedd y tu allan i'r adeilad mewn cyflwr gwael ac roedd angen rhoi sylw iddo ar frys.

Roedd prinder clinigau penodol ar gael ar gyfer rheoli clefydau cronig oherwydd bod aelod allweddol o'r tîm nyrsio wedi gadael y practis. Mae'r bwrdd iechyd bellach wedi penodi staff nyrsio llawn a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Roedd safon cadw cofnodion cleifion yn dda ond roedd problem barhaus yn ymwneud ag ôl-groniad o hen gofnodion cleifion sydd angen eu crynhoi. Dywedwyd wrthym fod cwmni allanol eisoes wedi cael ei gomisiynu i gwblhau'r dasg hon.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn mynd i mewn i'r safle.

Gwelsom nad oedd unrhyw annibendod na pheryglon yn y coridorau a all achosi i bobl faglu a chwympto. Roedd y tu mewn i'r practis yn ymddangos yn ddiflas, ond roedd yn lân ac yn daclus yn gyffredinol. Gwelsom fod dwy gadair yn yr ystafell aros wedi'u rhwygo'n sylweddol. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch cleifion gan y gallai bacteria dreiddio'r ffabrig ac na ellir eu glanhau'n effeithiol. Felly, mae hyn yn peri risg o groes-heintio i gleifion ac ymwelwyr.

Roedd y tu allan i'r adeilad mewn cyflwr gwael ac nid oedd wedi cael ei gynnal a'i gadw. Gwelsom fod fframiau pren y ffenestri yn pydru a bod paent yn pilio oddi ar bob un o fframiau'r ffenestri a'r drysau storio pren mawr ger y fynedfa. Roedd chwyn mawr yn tyfu ar y tiroedd a gwelsom fod chwynnyn mawr iawn wedi rhwystro'r gwter ac wedi achosi iddi dorri, gan arwain at ddŵr glaw yn diferu ar y llawr. Roedd hefyd beth graffiti ar y brics ar ochr yr adeilad ger yr allanfa dân.

Cadarnhaodd yr uwch-staff fod y bwrdd iechyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad cyfan lle roedd y ddau bractis wedi'u lleoli ar y cyd. Gwelsom yng Nghynllun Datblygu'r Practis fod cam gweithredu i fynd i'r afael â chyflwr yr adeilad a chwblhau'r gwaith adnewyddu dros gyfnod o ddwy flynedd yn dechrau ym mis Mehefin 2017. Nid oedd y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau ac roedd angen adnewyddu y tu allan i'r adeilad ar frys.

Tynnodd y staff y gwnaethom siarad â nhw sylw at yr heriau a oedd yn deillio o weithio mewn adeilad a gafodd ei adeiladu yn wreiddiol yn 1972, ond nad oedd yn addas at y diben mwyach. Rhoddodd uwch-staff o'r bwrdd iechyd wybod i ni fod cyflwr gwael yr adeilad a materion cysylltiedig eraill, megis diffyg seilwaith TG, ar y gofrestr risg. Tynnodd y staff sylw hefyd at y diffyg awyru yn yr adeilad a'r ystafelloedd bach, a oedd yn golygu ei bod yn anghyfforddus i'r staff a'r cleifion yn ystod tywydd poeth.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi cael ei gynnal a bod y practis yn cadw ffolder i storio rhestrau gwirio diogelwch tân dyddiol. Roedd y rhestrau gwirio yn cynnwys gwiriadau gweledol i sicrhau bod y ffyrdd o ddianc yn glir a bod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol yn y practis.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff unrhyw gadeiriau difrodedig yn yr ystafell aros eu hatgyweirio neu y gosodir rhai newydd yn eu lle, er mwyn gallu eu glanhau'n effeithiol i leihau'r risg o groes-heintio
- Blaenoriaethu gwaith i adnewyddu y tu allan i'r adeilad.

## Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis; roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Roedd yr ystafell driniaeth a'r ystafelloedd ymgynghori i gyd yn lân. Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo a hylendid dwylo priodol ar gael, ynghyd â biniau priodol yn yr ardaloedd clinigol. Gwelsom fod polisi rheoli heintiau ar waith a oedd yn benodol i'r practis, ynghyd â pholisi generig y bwrdd iechyd.

Roedd gweithdrefnau rheoli gwastraff ar waith, a oedd yn cynnwys polisi, a biniau gwastraff clinigol y gellir eu cloi ar flaen y practis, ond nid oedd y biniau wedi'u clymu wrth wal na'u storio y tu ôl i ddrws dan glo. Roedd hyn yn golygu y gallai rhywun o bosibl gael gafael ar y gwastraff clinigol o hyd.

Nid oeddem yn gallu cadarnhau a oedd pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael brechiadau Hepatitis B, gan fod y wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog yng nghofnodion y staff gan dîm Iechyd Galwedigaethol y bwrdd iechyd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y cofnod canolog o statws Hepatitis B y staff yn gyflawn ac y caiff copi ei gadw yn y practis
- Sicrhau y caiff y biniau gwastraff clinigol eu storio'n ddiogel.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod systemau effeithiol ar waith i reoli meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd gan y practis fferyllydd llawn amser sy'n bennaf cyfrifol am adolygiadau o feddyginiaethau ac sy'n cael ei gefnogi gan weithwyr cymorth gofal iechyd. Nid oedd y fferyllydd ar gael ar ddiwrnod ein harolygiad i drafod protocolau ar gyfer adolygiadau o feddyginiaethau. Dywedwyd wrthym y bydd y fferyllydd yn cael gwared ar unrhyw feddyginiaeth nas defnyddir yn ystod yr adolygiad, a bydd yn trafod â'r meddyg teulu yn ôl yr angen.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio copïau caled o ffurflenni atgyfeirio'r cynllun cerdyn melyn<sup>5</sup> er mwyn rhoi gwybod am unrhyw adweithiau negyddol i gyffuriau, er na chyflwynwyd yr un yn ystod y 12 mis blaenorol. Efallai y dylai'r practis ystyried defnyddio proses o gyflwyno cardiau melyn drwy naill ai system Vision drwy'r tab effeithiau negyddol neu fel arall drwy gynllun cerdyn melyn ar-lein

Roedd y practis yn defnyddio fformiwleri'r bwrdd iechyd lleol a dywedwyd wrthym y caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd ar-lein i ystyried canllawiau lleol a chenedlaethol. Roedd hyn yn golygu bod y clinigwyr yn rhagnodi meddyginiaeth o restr ddewisol o feddyginiaethau a gymeradwywyd gan y bwrdd iechyd.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd un o feddygon teulu'r practis wedi cael ei benodi'n arweinydd diogelu. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff berson cyswllt lleol i roi gwybod iddo am bryderon diogelu a thrafod y pryderon hynny.

Cadarnhaodd yr uwch-staff fod staff clinigol a gweinyddol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ond ni welsom dystiolaeth i ddangos hyn gan fod y cofnodion hyfforddiant yn anghyflawn. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Mae Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru<sup>6</sup> yn pennu bod rhwymedigaeth ar sefydliadau gofal iechyd i ddarparu gwasanaeth dadebru o ansawdd da. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng (claf yn llewygu) ar gael yn hawdd, a bod y ddau bractis ar y safle yn eu rhannu. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ystafell lle roedd y cyfarpar yn cael ei storio yn anniben, felly efallai y dylai'r practis gyflwyno proses i sicrhau y caiff ei chadw'n ddaclus. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar a'r feddyginiaeth wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd a bod hyn wedi cael ei gofnodi, ond nid oedd yn glir pa bractis oedd yn bennaf cyfrifol am hyn.

---

<sup>5</sup> <https://yellowcard.mhra.gov.uk/>

<sup>6</sup> [Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru](#)

Wrth archwilio'r cyfarpar argyfwng, gwelsom fod gan y practis droli dadebru canolog â diffibriliwr, ocsigen a chyffuriau argyfwng. Gwnaethom adolygu'r gofrestr cyffuriau a chyflawni gwiriadau gweledol a oedd yn dangos bod y cyffuriau i gyd yn gyfredol.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Dyweddodd y staff wrthym am y trefniadau ar gyfer sicrhau bod tîm y practis yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau ac unrhyw ganllawiau proffesiynol newydd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE)<sup>7</sup>. Roedd hyn yn cynnwys anfon y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost at staff y practis a thrafodaethau yn y cyfarfodydd clinigol wythnosol.

Gwelsom dystiolaeth dda o adolygiadau clinigol gan gymheiriaid a mentora staff. Roedd adolygiadau gan gymheiriaid a rhannu pwyntiau dysgu yn eitemau sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd clinigol wythnosol. Er bod trafodaethau adolygu achosion diddorol yn y cyfarfodydd, rhoddwyd gwybod i ni nad oedd digwyddiadau pwysig yn cael eu hadolygu fel mater o drefn, ond bod y practis yn bwriadu mynd i'r afael â hyn. Gwelsom fod y practis wedi datblygu ffurflen yn ddiweddar ar gyfer dadansoddi digwyddiadau pwysig a ddefnyddir i hwyluso trafodaethau a dysgu yn y cyfarfodydd clinigol wythnosol.

Roedd gan y practis broses ar waith i sicrhau y caiff rhybuddion diogelwch perthnasol eu dosbarthu i aelodau o staff ac y gweithredir arnynt. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r wybodaeth gan arweinydd y tîm clinigol, a fyddai'n anfon diweddariadau drwy e-bost at y clinigwyr perthnasol.

Rhoddwyd gwybod i ni nad oedd pob clinig ar gyfer clefydau cronig a gynigir fel arfer gan y practis yn cael ei gynnal. Y rheswm dros hyn yw bod y brif nyrs flaenorol ar gyfer Rheoli Clefydau Cronig wedi gadael y practis ym mis Rhagfyr 2018. Arweiniodd hyn at broses recriwtio ac mae tair nyrs rhan amser sy'n gweithio ar y safleoedd yng Nghwmafan a Chymer bellach. Dywedwyd wrthym

---

<sup>7</sup> <https://www.nice.org.uk/>

fod y brif nyrs ar gyfer diabetes bellach wedi sefydlu clinigau penodol, ond nid oedd clinigau eraill wedi ailddechrau eto.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd flaenoriaethu cynlluniau i ailddechrau clinigau rheoli clefydau cronig a oedd ar waith i gleifion yn flaenorol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y practis yn rhan o glwstwr<sup>8</sup> meddygfeydd Afan, a'i fod wedi mynd ati i gymryd rhan mewn nifer o fentrau yn y clwstwr. Mae dirprwy reolwr y practis ac arweinydd y tîm clinigol yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr.

Roedd y mentrau y mae'r practis wedi cymryd rhan ynddynt yn cynnwys cynllun peilot parafeddygon cymunedol yn 2018, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her ym mhob rhan o'r clwstwr o ymweld â chartrefi. Hefyd yn 2019, cynhaliwyd cynllun peilot cymdeithion meddygol er mwyn rhoi cymorth i feddygon wrth ddiagnosisio a rheoli cleifion yn y clwstwr. Trafodir effaith y cynlluniau peilot yng nghyfarfodydd y clwstwr.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth y bwrdd iechyd ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon ac roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol electronig cleifion a gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw'n dda.

Roedd y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau parhad gofal rhwng clinigwyr a staff locwm. Roedd y llwybrau clinigol a'r broses benderfynu wedi'u

---

<sup>8</sup> [00108}http://www.gpone.wales.nhs.uk/clusters](http://www.gpone.wales.nhs.uk/clusters)

dogfennau'n dda ac roeddent yn briodol i'r achosion clinigol. Roedd y feddyginiaeth a ragnodwyd yn briodol i'r cyflyrau clinigol, ond gwelsom fod un achos lle na ragnodwyd y dos gorau posibl.

Gwelsom fod yr holl gofnodion yn cynnwys gwybodaeth allweddol fel enw'r clinigwr a oedd yn gwneud y nodiadau, y dyddiad a chanlyniad yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi am gleifion mewn modd amserol i sicrhau amserlen glir o ddigwyddiadau. Roedd y broses o ddiweddarau hanes meddygol a rhestrau o feddyginiaeth cleifion yn amserol ar ôl cael crynodebau rhyddhau gan yr ysbyty hefyd yn dda.

Gwelsom un achos lle byddai cwnsela manylach cyn atgyfeirio rhywun i gael fasdoriad wedi cydymffurfio ag arfer da. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r wybodaeth a'r broses gwnsela hon wedi cael eu hailadrodd yn yr ysbyty a oedd yn derbyn y claf.

Ar adeg ein harolygiad, cadarnhaodd yr uwch-staff fod ôl-groniad o tua 300 o gofnodion yr oedd angen iddynt gael eu crynhoi. Serch hynny, rhoddwyd sicrwydd i ni y caiff cofnodion newydd pob claf eu crynhoi. Mae crynhoi gwybodaeth yn helpu i sicrhau y gall y meddygon teulu a'r nyrsys gael gafael yn hawdd ar hanes meddygol blaenorol perthnasol claf er mwyn helpu i lywio penderfyniadau am ofal a thriniaeth. Mae crynhoi cofnodion wedi bod yn broblem hirdymor i'r practis ers i'r bwrdd iechyd gymryd yr awenau yn 2017. Rhoddwyd gwybod i ni fod dulliau amrywiol wedi cael eu defnyddio i ddatrys yr ôl-groniad, ond roedd cyfnodau o absenoldeb annisgwyl gan y staff wedi llesteirio ar y rhain. Mae'r bwrdd iechyd bellach wedi comisiynu'r Bartneriaeth Cydwasanaethau<sup>9</sup> i glirio'r ôl-groniad.

---

<sup>9</sup> Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad annibynnol, dan berchnogaeth a chyfarwyddyd [GIG Cymru](#). Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cefnogi GIG Cymru drwy ddarparu amrywiaeth gynhwysfawr o swyddogaethau a gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.



Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd flaenoriaethu'r gwaith sydd wedi cael ei gomisiynu i glirio'r ôl-groniad o gofnodion cleifion sydd angen eu crynhoi.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod staff y practis yn cael cymorth da iawn gan y bwrdd iechyd ac roeddent yn gadarnhaol am y cyfleoedd i gael hyfforddiant a datblygu.

Roedd cyfarfodydd o'r rheolwyr a'r tîm clinigol yn cael eu cynnal ac roedd prosesau i rannu gwybodaeth ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda.

Nodwyd bod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y wybodaeth am hyfforddiant staff yn gyfredol, a'i bod yn hawdd cael gafael arni i ddangos bod angen cwblhau'r hyfforddiant a bod hynny wedi cael ei wneud.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cymerodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe awenau'r practis ym mis Ebrill 2017, a'i uno â phractis yng Nghymer er mwyn i un tîm practis ddarparu gwasanaethau mewn dau safle.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymgynghori â'r staff ac aelodau o'r cyhoedd mewn digwyddiad ymgysylltu â chleifion, ynghylch newidiadau i enw'r practis cyfun. Roedd teimlad y byddai enw newydd ar y practis yn helpu pobl i ddeall mai un practis ar ddau safle ydyw, yn hytrach na dau bractis ar wahân. Ni wnaed penderfyniad terfynol eto am yr enw newydd.

Rhoddyd gwybod i ni fod proses newid sefydliadol yn cael ei chwblhau i ffurfioli'r strwythur staff newydd yn y ddau safle, sy'n cynnwys disgrifiadau swydd diwygiedig ac ail-frandio rhai rolau. Bydd rheolwr y practis yn ymddeol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu rheolwr cynorthwyol y practis i feithrin y sgiliau a'r profiad perthnasol fel rhan o'r broses o gynllunio olyniaeth.

Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda a'u bod yn cael cymorth da iawn gan y bwrdd iechyd. Disgrifiodd aelodau o dîm y practis y cymorth da a oedd yn cael ei roi gan dîm rheoli gofal sylfaenol y bwrdd iechyd ac roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith yn y practis.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd clinigol a chyfarfodydd rheoli'r practis yn rheolaidd, a oedd hefyd yn cynnwys uwch-aelodau o'r bwrdd iechyd. Disgrifiwyd y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth o'r cyfarfodydd tîm, lle cymerir cofnodion a chynhelir cofnodlyfr gweithredu i sicrhau y caiff y camau gweithredu eu cwblhau. Anfonir neges e-bost at y person perthnasol am unrhyw gamau gweithredu i'w cwblhau. Rhoddwyd gwybod i ni nad yw staff y dderbynfa yn mynychu'r cyfarfodydd, ond mae proses ar gael lle gall aelodau o'r tîm godi pryderon yn ffurfiol. Mae hyn yn ymwneud â chofnodi materion mewn llyfr pryderon a drafodir wedyn yn y cyfarfodydd tîm.

Rhoddodd yr uwch-staff wybod i ni fod llawer o waith wedi cael ei wneud ers i'r practis uno ym mis Ebrill 2017 i gysoni pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol rhwng y ddau bractis. Pan gaiff polisïau eu diweddarau, mae'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy e-bost a defnyddir nodwedd gyfrifiadurol (derbynneb wedi darllen) i fonitro bod pob aelod o'r staff wedi darllen y diweddariadau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ymwybodol iawn o unrhyw newidiadau, gan gadarnhau eu bod yn gallu defnyddio mewnwyd y bwrdd iechyd a oedd yn cynnwys pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau.

Gwelsom fod Cynllun Datblygu'r Practis wedi cael ei ddiweddarau yn 2017 i adlewyrchu'r ffordd y rheolir y ddau bractis ynghyd ag amrywiaeth o gamau gweithredu penodol a gynlluniwyd o 2017 i 2020. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod pob aelod o dîm y practis yn rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Datblygu'r Practis. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu'r cynllun i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau gweithredu a gwblhawyd a sicrhau bod yr amserlenni'n dal i fod yn gywir, er enghraifft gwaith gwella safle.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

Gwelsom dystiolaeth o amgylchedd cefnogol i ddatblygu tîm o staff yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys cronfa dda o wybodaeth glinigol ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid rhwng y safleoedd, a chadarnhaodd y staff clinigol a gweinyddol eu bod yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o gyfleoedd i gael hyfforddiant. Rhoddwyd gwybod i ni fod y ddau weithiwr cymorth gofal iechyd

yn cael eu cefnogi i astudio ar gyfer diploma lefel tri mewn cymorth gofal iechyd. Ar ôl iddynt gymhwyso, bydd hyn yn galluogi'r gweithwyr cymorth i gynorthwyo'r nyrsys, er enghraifft, gyda gwaith fflebotomi (tynnu samplau o waed). Wrth wneud hynny, bydd yn creu mwy o adnoddau nyrsio i wneud mwy o waith rheoli clefydau cronig.

Roedd gan bob aelod o'r staff Gofnod Electronig unigol. Heblaw am roi manylion y staff, mae Cofnod Electronig y Staff yn galluogi'r rheolwyr ac aelodau unigol o'r staff i weld manylion unrhyw hyfforddiant a gwblhawyd neu nas cwblhawyd. Gall data Cofnod Electronig i Staff greu adroddiadau i ddangos a yw pob gweithiwr yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Caiff ei ddiweddarau bob mis gan y rheolwr gofal sylfaenol a'i rannu wedi hynny â rheolwr y practis.

Dangoswyd adroddiad hyfforddiant Cofnod Electronig y Staff a chydymffurfiaeth aelodau unigol o'r staff â hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion tri aelod o'r staff yn cynnwys unrhyw ddata, a dywedwyd wrthym mai methiant i ddiweddarau'r data ar Gofnod Electronig y Staff oedd yn gyfrifol am hyn. O ganlyniad, ni ellid rhoi sicrwydd i ni fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant lefel un (ymwybyddiaeth sylfaenol) ar ddiogelu oedolion a phlant. Nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu dangos tystiolaeth o ba aelodau o staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel dau, ond rhoddwyd sicrwydd cadarn i ni fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i'r lefel ofynnol. Dangosodd aelodau'r tîm clinigol eu Cofnod Electronig i ni a oedd yn nodi eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel tri. Gwnaethom siarad â meddyg teulu a gadarnhaodd ar lafar fod pob meddyg teulu wedi cwblhau hyfforddiant lefel tri a bod y wybodaeth hon wedi cael ei chasglu ar fatrics hyfforddiant mewnol. Fodd bynnag, pan gawsom gip ar y matrices hyfforddiant, roedd yn wag ac nid oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth.

Rhoddwyd gwybod i ni mai timau cydwasanaethau adnoddau dynol canolog y bwrdd iechyd oedd yn rheoli'r broses o recriwtio staff, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogi. Nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff, gan nad oedd y wybodaeth yn cael ei chadw yn y practis. Disgrifiodd uwch-staff broses recriwtio gynhwysfawr i sicrhau bod darpar staff yn addas i weithio yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yr hawl i weithio, geirdaon cyflogaeth ac archwiliadau iechyd galwedigaethol. Rhoddwyd gwybod i ni fod pob aelod o'r staff yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau eu cyflogaeth neu os byddant yn newid i rôl arall, a phan ddechreuodd y bwrdd iechyd reoli'r

practis yn 2017, gofynnwyd i bob aelod o'r staff gael gwiriad newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhaodd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael arfarniad blynyddol ond ni welsom dystiolaeth o'r ddogfennaeth. Rhoddwyd gwybod i ni fod dogfennau'r arfarniadau wedi'u sganio a'u cadw ar Gofnod Electronig y Staff, ond ni allai'r staff ddod o hyd i gopiâu i'w dangos i ni. Cyflwynodd staff y bwrdd iechyd adroddiad cryno a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff y practis yn cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amserol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu ar y lefel briodol, a bod y data yn cael eu cofnodi ar Gofnod Electronig y Staff.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			



## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Cwmafan

### Dyddiad arolygu: 10 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella uniongyrchol.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (priflythrennau):

### Teitl swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Cwmafan

### Dyddiad arolygu: 10 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried ffyrdd o sicrhau y caiff y ffin rhwng y practisau a diben y llinell breifatrwydd eu hegluro i gleifion</li> <li>Sicrhau bod mwy o staff yn cael hyfforddiant ar fod yn hebryngwyr, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ar bob adeg</li> <li>Sicrhau bod proses gadarn ar waith i'r staff gofnodi bod hebryngwr yn bresennol yn ystod yr archwiliad.</li> </ul>	4.1 Gofal ag Urddas	<p>Marcio'r llinell breifatrwydd yn glir a sicrhau bod y bwriad yn cael ei egluro i'r cleifion</p> <p>Bydd cyflwyno ffin rhwng y derbynfeydd yn gwella preifatrwydd. Cyflwynwyd cais i'r Gwasanaethau Ystadau.</p> <p>Sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar hyfforddiant ar-lein ar fod yn hebryngwyr ac yn cael amser wedi'i ddiogelu i gwblhau hyn.</p> <p>Parhau i ddefnyddio'r cod darllen i hebryngwyr yn nogfennau cleifion fel yr amlinellwyd ym mhob ystafell glinigol drwy boster penodol. Sicrhau bod y</p>	<p>Rheolwr Cymorth Gofal Sylfaenol/ Arweinydd y Gwasanaethau Ystadau</p> <p>Rheolwr y Practis</p> <p>Arweinydd Clinigol</p>	<p>Rhagfyr 2019</p> <p>Hydref 2019</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>poster i gyd yn dal yn eu lle a thrafod pwysigrwydd dogfennau hebryngwyr yn y cyfarfod clinigol sydd ar ddod – a drafodwyd yng nghyfarfod clinigol mis Awst.</p> <p>Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o godau darllen i hebryngwyr a sut i fewnbynnu'r rhain. Hyfforddiant y staff wedi'i gwblhau a'r polisi wedi'i ddiweddarau.</p> <p>Sicrhau bod yr archwiliad blynyddol o'r cofnodion meddygol yn cofnodi'r defnydd o godau darllen i hebryngwyr a dadansoddi'r canlyniadau yng nghyfarfodydd y practis er mwyn sicrhau y parheir i gydymffurfio.</p>	<p>Arweinydd Clinigol</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Hydref 2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau gwefan y practis er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau presennol a ddarperir</li> <li>• Ystyried sut i ddiffinio pob practis yn glir yng Nghanolfan Iechyd Cwmafan</li> </ul>	<p>4.2 Gwybodaeth i Gleifion</p>	<p>Mae'r angen i ddiweddarau'r wefan wedi cael ei nodi a'i flaenoriaethu fel rhan o broses barhaus o ddatblygu'r practis. Bydd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion yn cymryd rhan weithredol yn y broses ddatblygu a fydd yn cydymffurfio â Safonau Mynediad newydd Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr Cymorth</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Rhagfyr 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff cleifion eu cyfeirio'n briodol at eu hystafelloedd ymgynghori ac at ba dderbynfa y dylent fynd</li> <li>Diweddarau'r arwyddion allanol ar yr adeilad i gynnwys gwybodaeth gyfredol</li> </ul>		<p>Diffinio'r ddau bractis yn glir drwy arwyddion a logos â chod lliw er mwyn helpu cleifion i adnabod y dderbynfa a'r ystafelloedd ymgynghori cywir.</p> <p>Cais i'w gyflwyno ar gyfer gwelliannau allanol fel rhan o asesiad parhaus y Gwasanaethau Ystadau at ddibenion gwella adeiladau. Cael gwared ar hen arwyddion fel blaenoriaeth er mwyn osgoi dryswch i gleifion.</p>	<p>Gofal Sylfaenol/ Arweinydd y Gwasanaethau Ystadau</p> <p>Rheolwr Cymorth Gofal Sylfaenol/ Arweinydd y Gwasanaethau Ystadau</p>	Rhagfyr 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hysbysiadau'n cael eu harddangos yn glir, gan amlygu bod dolen sain a gwasanaeth cyfieithu ar gael.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Ychwanegu arwydd clir at y dderbynfa er mwyn amlygu bod dolen sain a gwasanaeth ac adnoddau cyfieithu ar gael.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gomisiynu asesiad o fynediad i bobl anabl er mwyn dangos effaith yr adeilad ar gleifion ag anabledau.	6.2 Hawliau pobl	Mae asesiad o fynediad i bobl anabl wedi cael ei gwblhau fel rhan o'n harchwiliad mewnol o'r practis. Gofynnir am asesiad /canllawiau pellach	Rheolwr Cymorth Gofal Sylfaenol	Medi 2019

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y caiff unrhyw gadeiriau difrodedig yn yr ystafell aros eu hatgyweirio neu y gosodir rhai newydd yn eu lle, er mwyn gallu eu glanhau'n effeithiol i leihau'r risg o groes-heintio</li> <li>Blaenoriaethu gwaith i adnewyddu y tu allan i'r adeilad.</li> </ul>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Caiff adolygiad o'r holl gadeiriau yn yr ystafelloedd aros a'r ystafelloedd ymgynghori ei gwblhau fel rhan o archwiliad Atal a Rheoli Heintiau. Gosodir cadeiriau newydd yn lle unrhyw gadair ddifrodedig nad yw'n cydymffurfio â safonau Atal a Rheoli Heintiau.</p> <p>Cyflwynwyd ceisiadau am waith adnewyddu i'r Gwasanaethau Ystadau ac rydym yn aros am benderfyniad am raddau unrhyw waith atgyweirio/gwella posibl i'r tu allan i'r adeilad.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr Cymorth Gofal Sylfaenol/ Arweinydd y Gwasanaethau Ystadau</p>	<p>Hydref 2019</p> <p>Rhagfyr 2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y cofnod canolog o statws Hepatitis B y staff yn gyflawn ac y caiff copi ei gadw yn y practis</li> <li>Sicrhau y caiff y biniau gwastraff clinigol eu storio'n ddiogel.</li> </ul>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Caiff unrhyw ddata staff yn ymwneud â Hepatitis B eu casglu a'u storio gan yr adran Iechyd Galwedigaethol ar ran y Bwrdd Iechyd. Caiff cofnod mewnol o bob achos cychwynnol o glirio staff Iechyd Galwedigaethol ac unrhyw ofynion brechu eu lunio a'i gynnal yn y practis.</p> <p>Mae hyn wedi cael ei adnabod a'i nodi gan y Gwasanaethau Ystadau. Mae bin newydd a chadwyn wal ddiogel wedi</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Hydref 2019</p> <p>Medi 2019</p>

		cael eu caffael ac maent ar fin cael eu gosod.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd flaenoriaethu cynlluniau i ailddechrau clinigau rheoli clefydau cronig a oedd ar waith i gleifion yn flaenorol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae'r broses o recriwtio i'r adran nyrsio wedi gwella'r allbwn clinigol. Mae'r arweinydd clinigol dynodedig wrthi'n ailddechrau'r clinigau Rheoli Clefydau Cronig.	Arweinydd Clinigol	Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd flaenoriaethu'r gwaith sydd wedi cael ei gomisiynu i glirio'r ôl-groniad o gofnodion cleifion sydd angen eu crynhoi.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r gwaith o grynhoi'r ôl-groniad o nodiadau eisoes wedi dechrau. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei flaenoriaethu a disgwylir iddo gael ei gwblhau o fewn yr amserlen a nodwyd.	Rheolwr y Practis	Medi 2019
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff y practis yn cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amserol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu ar y lefel briodol, a bod y data yn cael eu cofnodi ar Gofnod Electronig y Staff.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r adolygiad o gydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant gorfodol ar Gofnod Electronig y Staff yn parhau. Bydd pob aelod o'r staff yn parhau i gael eu hysbysu am unrhyw enghraifft o ddiffyg cydymffurfio drwy reolwyr llinell fel dull o raeadru. Caiff mwy o amser wedi'i ddiogelu ei nodi er mwyn i'r staff gwblhau'r modiwlau craidd yn ôl yr angen.	Rheolwr y Practis/ Arweinydd Clinigol	Medi 2019

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Sam Page**

**Swydd: Pennaeth Gofal Sylfaenol Dros Dro**

**Dyddiad: 20 Awst 2019**